



PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

Tystysgrif Addysg Uwch mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle:

Amcanion y Dystysgrif mewn Sgiliau ar gyfer Cyflogadwyedd yw:

- rhoi cyfle i chi astudio ar gyfer dyfarniad sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar gyflogadwyedd yn y dyfodol a symud ymlaen yn eich gyrfa;
- eich cyflwyno i ddulliau, strategaethau a sgiliau yr ystyrir eu bod yn hanfodol ar gyfer gwaith mewn cyd-destun generig;
- eich galluogi i ddod i arfer â thrafodaeth a dadlau wrth brosesu a datrys problemau;
- datblygu'ch deallusrwydd emosiynol a'ch gallu i weithio'n effeithiol yn annibynnol ac o fewn tîm;
- darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu a lunnir i helpu myfyrwyr i gaffael a chymhwyso gwybodaeth;
- darparu amrywiaeth o ddulliau addysgu a gyflwynir mewn amgylchedd dysgu cefnogol

Sut mae'r cwrs yn gweithio?

Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn unedau bychain un ar ôl y llall, h.y. un modwl ar y tro, ac un yn arwain i'r llall.

Mae naill ai 10 neu 20 credyd i bob modwl a byddwch yn astudio cyfanswm o 120 credyd.

Pa gymhwyster byddaf i'n ei ennill?

Tystysgrif Addysg Uwch sy'n gymhwyster prifysgol Lefel 4 cyfwerth â blwyddyn gyntaf gradd israddedig lawn amser. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sy'n ei dyfarnu.

Mae hefyd yn bosibl i fyfyrwyr llwyddiannus ennill dyfarniad ychwanegol sef Tystysgrif Lefel 4 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth a ddyfernir gan y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM).

Pryd mae'r cwrs yn cael ei gynnal?

Rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd.

Mae'r cwrs yn dechrau yn Abertawe ar ddydd Sadwrn 2 Chwefror 2013 neu dydd Sul 10 Chwefror 2013 ac yn Llanelli ar ddydd Sadwrn 9 Chwefror 2013.

Bob mis byddwch yn mynychu naill nai'r dydd Sadwrn cyntaf neu'r ail dydd Sul (Abertawe) neu yr ail dydd Sadwrn (Llanelli) a un noswaith yr wythnos am y tair wythnos nesaf fel a ganlyn:

Llanelli - Coleg Sir Gâr - Campws y Graig

2il ddydd Sadwrn bob mis 9.00am – 1.00pm a 2.00pm – 5.00pm a

Nos Fawrth 6.00pm – 9.00pm

Abertawe – Metropolitan Abertawe – Campws Mount Pleasant

Dydd Sadwrn 1af 9.00am – 1.00pm a 2.00pm – 5.00pm **bob mis a Nos Fawrth** 6.00pm – 9.00pm

neu

2il ddydd Sul 9.00am – 1.00pm a 2.00pm – 5.00pm **bob mis a Nos Fercher** 6.00pm – 9.00pm

YNGHYD Â

Chyfnodau preswyl ar gampws Llambed y Brifysgol er mwyn astudio Prosiectau Llwybr o 20 credyd:

- (1) Nos Wener 12 Ebrill am 6 pm tan prynhawn dydd Sul 14 Ebrill 2013.

A

- (2) Penwythnos ac un noswaith o ddarlithoedd yn ystod mis Awst 2013.

NEU

Beth os na fedraf fynychu'r cyfnod preswyl?

Gallwch ddewis i wneud prosiect yn seiliedig ar eich gwaith o dan arweiniad eich tiwtor yn lle'r cyfnod preswyl.

Pa sgiliau byddaf i'n eu datblygu?

Mae'r cwricwlwm wedi'i seilio ar brosiectau ac mae wedi'i gynllunio i integreiddio "sgiliau meddal" megis cyfathrebu a gwaith tîm â sgiliau "caletach" megis llythrennedd, rhifedd a thrin data.

Gan mai tystysgrif Lefel 4 yw hon, byddwch yn astudio o fewn amgylchedd cefnogol a chewch eich annog i ryngweithio â'ch cyd-fyfyrwyr o ddisgyblaethau amrywiol.

Byddwch yn dod yn fedrus wrth ddefnyddio'r canlynol:

- **Sgiliau gwybyddol a gallu meddyliol** – dadansoddi gwybodaeth, trin data a dod i gasgliadau;
- **Cymwyseddau generig** – gweithio mewn tîmau, sgiliau cyfathrebu a sensitifrwydd rhyngpersonol;
- **Galluedd personol** – hunanymwybyddiaeth, gweithiwr hunan-feirniadol ac annibynnol sy'n gallu cychwyn a chwblhau gweithgaredd penodol;
- **Gallu technegol** – yn meddu ar lefel briodol o sgiliau technegol ar gyfer gwaith penodol yn cynnwys sgiliau craidd megis llythrennedd, rhifedd a TG;
- **Ymwybyddiaeth o fusnes a threfniadaeth** - dealltwriaeth o sut mae busnesau'n gweithredu ac o systemau trefniadol;
- **Cymhwyso'n ymarferol** – integreiddio theori ac arfer â'r gallu i werthuso perfformiad yn feirniadol a'i adolygu.

Beth yw'r modylau?

(8 x 10 credits)		Math o asesiad	%	Dyddiad
EMPL4002	Llythrennedd Digidol	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Chwe 13

EMPL4001	Datblygiad Personol ar gyfer Cyflogaeth	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Maw 13
EMPL4003	Gweithio mewn Timau	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Mai 13
EMPL4004	Sgiliau Cyfathrebu	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Meh 13
EMPL4005	Gwybodaeth, Data a Dadansoddi	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Gorff 13
EMPL4007	Cyflogadwyedd	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Med 13
EMPL4008	Datrys Problemau	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Hyd 13
EMPL4009	Cynllunio Prosiectau	Aseiniad gwaith cwrs	100%	Tach 13
(2 x 20 credits)				
EMPL4006	Prosiect Llwybr 1: Gwreiddiau Lleol, Cysylltiadau Byd-eang	Cyflwyniad adfyfyriol	50%	Ebr 13
		Cyflwyniad grŵp	50%	Ebr 13
EMPL4010	Prosiect Llwybr 2: Sgiliau ar gyfer Hunangyflogaeth	Cyflwyniad grŵp	50%	Aws 13
		Cyflwyniad adfyfyriol	50%	Aws 13

Sut byddaf i'n cael fy asesu?

Bydd yr asesu ar ddiwedd pob mowl ac wedi'i seilio ar eich prosiect. Nid oes arholiadau.

Bydd un aseiniad gwaith cwrs yn cael ei asesu ar gyfer pob modwl 10 credyd. Bydd yr aseiniad yn deillio o'r gweithgarwch prosiect a fydd yn digwydd yn ystod y diwrnod astudio ar y penwythnos, ac a fydd yn cael ei ddatblygu dros y tair sesiwn nesaf.

Bydd cyflwyniad grŵp a asesir yn unigol i bob modwl 20 credyd ynghyd â darn ysgrifenedig neu gyflwyniad adfyfyriol.

Aseiniad gwaith cwrs: Gall hwn gynnwys aseiniad yn dadansoddi data, darn yn dadansoddi testun, cyflwyniad fideo digidol neu adroddiad ysgrifenedig.

Cyflwyniad Grŵp: Mae siarad gerbron pobl mewn dull eglur, trefnus a pherthnasol, yn sgil hanfodol bwysig ar gyfer cyflogaeth.

Darn o waith Adfyfyriol: Bydd y dull asesu hwn yn canolbwyntio ar eich gallu i adfyfyrio ar brosiectau grŵp mewn dull trefnus, gan ddadansoddi'r cryfderau a'r gwendidau.

Pa gymwysterau sydd eu hangen arnaf i'r cwrs?

Bydd ymgeiswyr yn cael eu derbyn ar y rhaglen yn ôl eu haeddiant unigol.

Fel arfer disgwylir bod gan fyfyrwyr dan 21 oed o leiaf 1 Lefel A neu Ddiploma/Tystysgrif Genedlaethol BTEC neu'r cyfwerth.

Ymgeiswyr Aeddfed – yn aml gellir rhoi ystyriaeth i brofiad yn lle cymwysterau ffurfiol.

Sut mae gwneud cais?

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais o wefan y Brifysgol: www.ydds.ac.uk/

Hefyd gallech ymweld â'n Nosweithiau Gwybodaeth a Chofrestru sydd i'w cynnal fel a ganlyn:

Llanelli

Cofrestru:

Dydd Mawrth 22 Ionawr rhwng 5 – 7pm NEU Dydd Sadwrn 26 Ionawr 10am- 12noon.

Abertawe

Cofrestru:

Dydd Mercher, 23 Ionawr, 5 – 7pm NEU Ddydd Sul, 27 Ionawr, 10am – 12 noon.

Faint yw'r ffioedd i'r cwrs?

Nid oes rhaid talu unrhyw ffioedd ymlaen llaw. Dim ond pan fyddwch yn ennill mwy na £21,000 y flwyddyn y bydd rhaid talu.

Y Ffioedd Dysgu i'r cwrs yw £3,465 ynghyd â'r grant ffioedd o £5,035 gan Lywodraeth Cymru.

Alla i gael help ariannol?

Gallwch, cewch fwrsari o £1,000 gan y Brifysgol ac efallai byddwch yn gymwys i gael cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Darllenwch ein hastudiaethau achos neu ewch i www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk

Sut mae gwneud cais am gyllid?

Gallwch gwblhau ffurflen gais i Gyllid Myfyrwyr Cymru www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk neu cysylltwch â Thîm Cyllid Myfyrwyr eich Awdurdod Lleol.

Beth allwn i ei wneud wedyn?

Gallech chi ddefnyddio'r cymhwyster hwn i symud ymlaen i raglen Gradd Sylfaen neu Radd Anrhydedd berthnasol.

Bydd y Brifysgol yn datblygu'r *Radd Sylfaen (FdA) mewn Sgiliau ar Rheolaeth yn Gweithle* ar gyfer blwyddyn academiaidd 2013/14, ac mae'n bosibl y byddech yn gymwys i symud ymlaen i raglenni eraill yn y Gyfadran Busnes ym Metropolitan Abertawe neu ar draws y Brifysgol gyfan.

Diddordeb?

Cysylltwch â Wendy Davies ar 0300 005 1019 neu anfonwch e-bost at vacancies@ydds.ac.uk i drafod eich opsiynau.